

Cynnwys

Cyfrifon y flwyddyn yn diweddu
31 Gorffennaf 2003

Adroddiad y Trysorydd	2
Llywodraeth Gorfforaethol	4
Cyfrifoldebau'r Cyngor	6
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	8
Cyfrif Incwm a Gwariant	10
Mantolen	11
Adroddiad Llif Arian	13
Adroddiad o Gyfanswm Enillion a Diffygion Cydnabyddedig	14
Polisiâu Cadw Cyfrifon	15
Nodiadau'r Cyfrifon	19
Atodiad - Cymarebau	45

Adroddiad y Trysorydd

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

Cwmpas yr Adroddiadau Cyllidol

Mae'r adroddiadau cyllidol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003 yn cyfuno canlyniadau'r Brifysgol a'i his-gwmnïau y ceir manylion amdanynt ym mharagraff 3 y Polisiau Cyfrifyddu (gweler tudalennau 15 i 16).

Canlyniadau'r Flwyddyn

Crynohir canlyniadau'r Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2003 fel a ganlyn:

	2002/03 £000	2001/02 £000	Newid %
Incwm	78091	75252	3.8
Gwariant	77770	75150	3.5
Cyfran Diffyg y Fenter ar y Cyd a Buddiannau Lleiafrifol	(371)	(51)	(627.5)
(Diffyg)/Gweddill ar ôl Dibrisiad Asedion ar Brisiad	(50)	51	(198.1)
Gweddill Cost Hanesyddol	650	1052	(38.2)

Yn y Cyfrif Incwm a Gwariant gwelir gweddill cost hanesyddol o £650k, a dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i weddill gael ei gofnodi. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech gyson ar draws y Brifysgol i chwilio am gyfleoedd i arbed costau a chynhyrchu incwm o dan arweiniad y Grŵp Cynllunio, Datblygu a Gweithredu, a'r broses gyfredol o ddatblygu dulliau i reoli cyllidebau'n dynnach. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn y llynedd, mae'r gweddillion hyn yn cynrychioli tuedd galonogol, ond mae angen gwelliant sylweddol, serch hynny, nid yn unig i adfer hylifedd ariannol sylfaenol y Brifysgol i sefyllfa fwy iach, ond hefyd i roi mwy o gyfle i fuddsoddi mewn cynlluniau strategol ac i ganiatáu ar gyfer trwsio a gwella'r ystâd. Fodd bynnag, wrth wynebu tangyllido cyson o du'r Llywodraeth, a'r gostyngiad blynyddol mewn cyllid cyson mewn termau gwirioneddol, mae'r newid graddol y dymunir ei weld mewn perfformiad yn her sylweddol iawn.

Tyfodd incwm 3.8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda'r cynnydd mwyaf amlwg o dan Grantiau'r Cyngor a Ffioedd Hyfforddi a Chontractau Addysg. Cynyddodd Grantiau'r Cyngor £1,522k (4.9%), a thra bu gostyngiad mewn incwm o grantiau ar gyfer cynlluniau arbennig, cynyddodd yr incwm a dderbyniwyd am safon ymchwil £1,576k yn dilyn perfformiad rhagorol y Brifysgol yn Ymarfer Asesu Ymchwil 2001. Cynyddodd Taliadau Ffioedd a Chontractau Addysg £1,772k (10.8%). Parheir i weld twf cadarn mewn ffioedd rhan-amser (£310k/16.9%) oherwydd bod marchnadoedd newydd a chyrtsiau newydd drwy'n cwmni menter ar y cyd ag Manchester Business School, yr Institute for Financial Management, yn dal i ddatblygu. Er mwyn creu cyfleoedd pellach fyth ar gyfer datblygu cafodd y cwmni hwn ei ddirwyn i ben ar 31 Gorffennaf 2003, a chafodd y busnes, ynghyd â'i holl asedion a'i ddyledion eu trosglwyddo i gwmni menter ar y cyd newydd, Business & Management Education Limited, cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau yn hytrach na gwarant. Gyda ffioedd tramor cafwyd twf o 39.2% (£504k) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda nifer myfyrwyr tramor yn codi i 256 o'i gymharu â'r nifer isel o 170 y flwyddyn flaenorol. Mae'r Brifysgol wedi mynd dros ei tharged yn y maes hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod hefyd sy'n dangos bod ei strategaeth recriwtio tramor ar y trywydd iawn. Gwelwyd cynnydd pellach o dros 20% a phoblogaeth o dros 300 o fyfyrwyr tramor.

Mater arall gwerth ei nodi yw'r cynnydd pellach a welwyd mewn incwm o Grantiau a Chontractau Ymchwil, sydd wedi mynd dros y rhicyn o £10m am y tro cyntaf. Mae aelodau staff yn haeddu eu llongyfarch ar y gamp hon sydd wedi ei seilio ar eu rhagoriaeth mewn ymchwil a llawer o waith caled iawn mewn

Adroddiad y Trysorydd

Y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

amgylchedd hynod gystadleuol.

Cynyddodd cyfanswm gwariant £2,620k (3.5%), a chynnydd mewn costau staff sydd i gyfrif am £2,548k o hyn. Mae niferoedd staff wedi aros yr un fath drwodd a thro a'r hyn sydd i gyfrif am y cynnydd yw cyfuniad o chwyddiant cyflogau ac ychwanegiadau at gyflogau.

Roedd ychwanegiadau at asedion sefydlog yn £4,805k, a gyllidwyd yn sylweddol o ffynonellau allanol, ac yn bennaf grantiau isadeiledd a chyfalaf o'r Cyngor Cyllido.

Perfformiad Buddsoddiadau

Mae gan y Brifysgol nifer o gronfeydd gwaddol yn deillio o gymynroddion neu roddion eraill. Buddsoddir y cronfeydd hyn gyda'i gilydd a gostyngodd gwerth y buddsoddiadau hyn ar y farchnad ddim ond 1.1% (2001/02: gostyniad o 17.6%) i £4,091k ar 31 Gorffennaf 2003, a oedd yn adlewyrchu blwyddyn fwy sefydlog yn y marchnadoedd ariannol. Yr elw ar gyfartaledd oedd 3.89% (2001/02 3.99%). Arolygir perfformiad y gronfa gan Bwyllgor Buddsoddiadau'r Brifysgol.

Llif Arian a Hylifedd

Mae'r llif arian cyfunol yn dangos gwelliant pellach ar y flwyddyn flaenorol gyda mewnlif arian net o £2,757k (2001/02: £4,616k) o weithgareddau gweithredol, a chynnydd o £672k a £159k yn y drefn yna mewn balansau arian ac adneuon tymor-byr. Fodd bynnag, atgyfnerthwyd y gwelliant hwn dros y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf drwy gynnydd sylweddol mewn incwm gohiriedig yn ymwneud ag incwm grant cyfyngedig. Er gwaethaf hyn bu gwelliant yn y sefyllfa hylifedd sylfaenol gydag asedion cyfredol net yn cau £1,026k yn uwch na sefyllfa'r flwyddyn ddiwethaf.

Projectau Cyfalaf

Mae'r Brifysgol ar fin dechrau ar un o'r rhaglenni adeiladu mwyaf mewn blynyddoedd diweddar. Yn ystod y flwyddyn cadarnhaodd Llywodraeth y Cynulliad Cymreig gyfraniad o £1.3m tuag at ddatblygu Cam II Adeilad Brigantia, o ganlyniad i'w phenderfyniad i symud ymlaen i gefnogi sefydlu Ysgol Glinigol newydd yng Ngogledd Cymru. Gyda'r Cyllid Isadeiledd Ymchwil Strategol o'r Cyngor Cyllido, bydd hyn yn arwain at broiect gwerth £2.7m. Mae dau broiect pellach o bwys bron â gorffen cael eu cynllunio hefyd. Arweiniodd cais llwyddiannus am gyllid Amcan 1 Ewropeaidd at raglen £10m i ddatblygu Canolfan Datblygu Rheolaeth o'r radd flaenaf mewn partneriaeth â'r sector breifat. Hefyd mae cam cyntaf gwaith gwerth £6m i aildatblygu Safle'r Gwyddorau hefyd wedi ei gynllunio. Bydd y ddau broiect hyn yn fodd i ddileu oddeutu £7m o gostau cynnal a chadw hir hel y Brifysgol.

Datblygiadau yn y Dyfodol

Yn yr adroddiad hwn y llynedd cyfeiriwyd at yr opsiynau posibl ar gyfer cydweithredu'n agos ag Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI). Roedd hyn yn cynnwys cryfhau'r Gynghrair Strategol rhwng y ddau sefydliad, trwy greu adrannau academiaidd a gwasanaeth ar y cyd, neu greu un Brifysgol yng Ngogledd Cymru, gyda champysau ym Mangor ac yn Wrecsam. Yn ystod y flwyddyn gwnaed llawer o waith i edrych ar ymarferoldeb y cynigion hyn, ac mae trafodaethau'n parhau.

Diweddgo

Gallwn edrych yn ôl ar flwyddyn arall o gynnydd. Mae'r ffigurau hyn yn dangos ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn i wella perfformiad ariannol y Brifysgol mewn llawer o feysydd allweddol. Rydym yn ymwneud â nifer o gynlluniau newydd cyffrous a fydd, gobeithio, yn pwysleisio safle'r Brifysgol fel darparwr gwasanaethau addysgol o'r radd flaenaf mewn dysgu ac ymchwil. Mae ein prif bryderon yn dal i ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw adeiladwaith ein hadeiladau a wynebu, mewn modd realistig, yr angen i bob adran dalu ei ffordd o ran cynnal ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a chadw ei chostau i lawr. Unwaith yn rhagor rydym yn ddyledus i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith rhagorol.

Huw Elwyn Jones

Llywodraeth Gorfforaethol

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddangos yr arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r modd y mae'r Brifysgol yn cymhwyso'r egwyddorion a bennwyd yn Adran 1 y Côd Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Gyfnewidfa Stoc Llundain ym Mehefin 1998. Ei ddiben yw cynorthwyo'r sawl sy'n darllen yr adroddiadau cyllidol i ddeall sut y cymhwyswyd yr egwyddorion.

Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am system reolaeth fewnol y Brifysgol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Ni all unrhyw system reolaeth fewnol, fodd bynnag, ond darparu sicrwydd rhesymol, eithr nid diamod, rhag camddatganiad neu golled berthnasol. Felly, fe'i cynlluniwyd i reoli, yn hytrach na dileu, risgiau arwyddocaol sy'n bygwth amcanion busnes y Brifysgol.

Mae'r Cyngor o'r farn fod proses gyfredol ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Brifysgol, ei bod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn a orffennodd 31 Gorffennaf 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ei bod yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Cyngor a'i bod yn unol â'r cyfarwyddyd rheolaeth fewnol ar gyfer cyfarwyddwyr ar y Côd Cyfunol fel y pennir ei fod yn briodol i addysg uwch.

Y mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a ddyfarnwyd yn wreiddiol yn 1885. Pennir ei hamcanion, ei phwerau a fframwaith ei threfn llywodraeth yn y Siarter a'i Statudau ategol, y cymeradwywyd y fersiwn diweddaraf ohonynt gan y Cyfrin Gyngor yn 1997.

O dan y Siarter a'r Statudau mae'n rhaid i'r Brifysgol gael tri chorff ar wahân, pob un â'i swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau, fel a ganlyn:

? Y Cyngor - yw'r corff llywodraethol gweithredol sy'n gyfrifol am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol, ac am bennu cyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad. Pennir y materion a neilltuir yn arbennig i'w penderfynu gan y Cyngor yn Statudau'r Brifysgol; trwy arfer a dan y Memorandwm Cyllidol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae swyddogaethau Llywydd ac Is-Lywydd y Cyngor yn rhai ar wahân i swyddogaeth Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-Ganghellor. Daw y mwyafrif o aelodau'r Cyngor o'r tu allan i'r Brifysgol (disgrifir hwy fel aelodau llyeg), ac o blith y rhain mae'n rhaid dewis ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd. Ymhlith ei aelodau hefyd ceir cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol ac o blith y myfyrwyr. Nid oes yr un o'r aelodau llyeg yn derbyn unrhyw dâl, ac eithrio ad-daliad treuliau, am y gwaith a wnânt i'r Brifysgol. Mae'r holl aelodau, ac eithrio'r Is-Ganghellor, sydd yn aelod *ex officio* o'r Cyngor, wedi eu penodi am gyfnodau penodedig yn amodol ar gael eu hailethol, ac nid yw ailbenodi yn awtomatig.

? Y Senedd - yw awdurdod academiaidd y Brifysgol a daw ei haelodaeth yn gyfan gwbl o blith staff academiaidd a myfyrwyr y sefydliad. Ei swyddogaeth yw cyfarwyddo a rheoli gwaith dysgu ac ymchwil y Brifysgol.

? Y Llys - corff mawr, ffurfiol at ei gilydd yw hwn (sydd yn bur debyg i gyfarfod cyfranddalwyr cwmni cyhoeddus mawr). Mae'n gyfrwng lle gall y buddiannau ehangach a wasanaethir gan y Brifysgol gael eu cysylltu â'r sefydliad, ac mae'n fforwm cyhoeddus lle gall aelodau'r Llys godi unrhyw faterion yn ymwneud â'r Brifysgol. Fel rheol mae'r Llys yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i dderbyn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Brifysgol. Yn ogystal mae angen i'r Llys gymeradwyo unrhyw newidiadau o bwys i gyfansoddiad y Brifysgol cyn y gellir eu cyflwyno i'r Cyfrin Gyngor.

Daw mwyafrif o aelodau'r Llys o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrrff penodol eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol, ond mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith staff y Brifysgol (academaidd ac anacademaidd) ac o blith y myfyrwyr.

Er bod y Cyngor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith yn ystod pob blwyddyn academiaidd, ymdrinnir â llawer o'i waith manwl i ddechrau gan Bwyllgorau Sefydlog, yn arbennig y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol,

Llywodraeth Gorfforaethol

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

y Pwyllgor Ystadau ac Adeiladau, y Pwyllgor Enwebiadau, y Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Archwilio. Adroddir yn ffurfiol ar benderfyniadau'r Pwyllgorau hyn i'r Cyngor, ac i'r Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau lle bo angen. Sefydlwyd y Pwyllgorau hyn, ynghyd ag eraill penodol, yn ffurfiol fel Pwyllgorau'r Cyngor gyda'u cylch gorchwyl a'u haelodaeth, (yn cynnwys cyfran sylweddol o aelodau lleig y dewisir y Cadeirydd o'u plith), wedi eu pennu yn un o Ordinhadau'r Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau yn adrodd i'r Cyngor ac i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor hwn, a gadeirir gan Gadeirydd y Cyngor, yn cynghori'r Cyngor ar y cyfeiriad strategol cyffredinol y dylai'r Brifysgol ei ddilyn. Mae'n cyd-drefnu ac yn integreiddio gweithgareddau academiaidd, anacademaidd, cyllidol a chynllunio ffisegol y Brifysgol, yn cyflwyno i'r Cyngor ac i'r Senedd y cyfryw gynlluniau ag a ystyria'n angenrheidiol ar gyfer datblygiad a gweithrediad parhaol y Brifysgol ac yn arolygu eu gweithrediad. Oherwydd hyn mae nifer o Bwyllgorau'r Cyngor a'r Senedd yn adrodd i'w prif gyrff drwy'r Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau: mae amserlen Pwyllgorau'r Brifysgol yn sicrhau nad yw hyn yn oedi gwneud penderfyniadau yn ormodol.

Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol ymhlith pethau eraill yn argymhell cyllid blynyddol a chyllidebau cyfalaf y Brifysgol i'r Cyngor ac yn arolygu perfformiad mewn perthynas â'r cyllidebau a gymeradwywyd.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn ystyried enwebiadau ar gyfer swyddi gwag cyfetholedig yn aelodaeth y Cyngor o dan y Statud berthnasol. Penodir rhai aelodau lleig gan gyrff allanol. Mae'r aelodau lleig hynny yn gymwys i'w hailbenodi gan y cyrff perthnasol pan maent yn ymddeol drwy gylchdro aelodaeth.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn pennu cyflogau'r aelodau staff uchaf, yn cynnwys yr Is-Ganghellor.

Ffurir y Pwyllgor Archwilio, sydd yn cyfarfod bob chwarter, o bum aelod lleig o'r Cyngor. Mae'n gyfrifol am gyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol i ystyried eu hadroddiadau a'u hargymhellion ar gyfer gwella systemau rheolaeth fewnol y Brifysgol, ynghyd ag ymatebion a chynlluniau gweithredu y rheolaeth. Er bod yr uwch swyddogion gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio fel bo angen, nid ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor, a gall y Pwyllgor gyfarfod â'r archwilwyr mewnol ac allanol ar eu pennau eu hunain i wneud penderfyniadau annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar benodi a thalu'r archwilwyr mewnol ac allanol.

Prif swyddog academiaidd a gweinyddol y Brifysgol yw'r Is-Ganghellor sydd â chyfrifoldeb cyffredinol i'r Cyngor dros gynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfn dda'r Brifysgol. O dan delerau'r Memorandwm Cyllidol ffurfiol rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Is-Ganghellor yw swyddog penodedig y Brifysgol ac yn y swyddogaeth honno gellir galw arno i ymddangos o flaen y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn Nhŷr Cyffredin.

Yn unol â Pholisi Rheolaeth Risg y Brifysgol mae Grŵp yr Uwch Swyddogion yn derbyn adroddiadau yn nodi dangosyddion perfformiad a risg allweddol ac yn ystyried materion rheolaeth bosibl a ddygir i'w sylw gan fecanweithiau rhybudd cynnar sydd wedi eu seilio o fewn yr unedau gweithredol ac a atgyfnerthir gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae Grŵp yr Uwch Swyddogion hefyd yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr archwiliwr mewnol a chan bwyllgorau priodol, megis y Pwyllgor Diogelwch, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Mae swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn yn cynnwys arolwg ar lefel uchel o reolaeth ariannol fewnol. Mae'r Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau, ar ran y Corff Llywodraethu, yn ystyried risg a rheolaeth ac yn derbyn adroddiadau ar hynny gan Grŵp yr Uwch Swyddogion. Mae'r pwyslais ar roi darlun llawn i gael mesur perthnasol o sicrwydd ac nid ar adrodd ar rai eithriadau yn unig. Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2003, cyflawnodd y Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau yr asesiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn a orffennodd 31 Gorffennaf 2003 trwy ystyried dogfennau gan Grŵp yr Uwch Swyddogion a'r archwiliad mewnol, a chymryd i ystyriaeth bethau a ddigwyddodd er 31 Gorffennaf 2003.

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

Yn unol â'r Siarter Frenhinol, y mae Cyngor Prifysgol Cymru, Bangor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli busnes Prifysgol Cymru, Bangor a gofynnir iddo gyflwyno adroddiadau archwiledig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Y mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sydd yn datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol Prifysgol Cymru, Bangor ac yn ei alluogi i sicrhau fod yr adroddiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r Siarter Frenhinol, y Datganiad Ymarfer Cyfrifyddu Cymeradwy ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Hefyd, o fewn telerau ac amodau Memorandwm Cyllidol a gytunwyd rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Prifysgol Cymru, Bangor, gofynnir i'r Cyngor drwy ei ddeiliad swydd penodedig, baratoi adroddiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sydd yn rhoi golwg cywir a theg ar gyflwr materion Prifysgol Cymru, Bangor ac ar y gweddill neu'r diffyg a'r llif-arian am y flwyddyn honno.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am gynnal ac am gywirdeb adroddiadau ariannol a gyhoeddir ar we-fan y Brifysgol. Dylid nodi y gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig yn ymwneud â pharatoi a dosbarthu adroddiadau ariannol wahaniaethu oddi wrth ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Wrth beri paratoi'r adroddiadau ariannol y mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau:

- y detholir polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- y llunnir barn ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth;
- fod safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wriadau o bwys a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiadau ariannol;
- fod cyfriflenni ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol onid yw'n amhriodol tybio y bydd Prifysgol Cymru, Bangor yn parhau i weithredu. Y mae'r Cyngor yn fodlon fod gan Brifysgol Cymru, Bangor adnoddau digonol i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld: oherwydd hyn parheir i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r adroddiadau ariannol.

Y mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i:

- sicrhau y defnyddir y cyllid a geir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn unig ar gyfer y dibenion y rhoddwyd ef ac yn unol â'r Memorandwm Cyllidol gyda'r Cyngor Cyllido ac unrhyw amodau eraill y gallai'r Cyngor Cyllido eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau y ceir rheolaeth gyllidol briodol i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill;
- ddiogelu asedion Prifysgol Cymru, Bangor ac i rwystro a darganfod twyll;
- sicrhau rheolaeth gynnil, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant Prifysgol Cymru, Bangor.

Y mae elfennau allweddol system reolaeth gyllidol fewnol y Brifysgol, a gynlluniwyd i gyflawni'r cyfrifoldebau a nodwyd uchod, yn cynnwys y canlynol:

- diffiniadau eglur o gyfrifoldebau penaethiaid adrannau academiaidd a gweinyddol a'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt;
- proses gynllunio gynhwysfawr tymor-canolig a byr, wedi ei hategu â chyllidebau incwm, gwariant a chyfalaf blynyddol manwl;

Cyfrifoldebau'r Cyngor

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

- adolygiadau rheolaidd o berfformiad academaidd ac adolygiadau misol o ganlyniadau cyllidol gan gynnwys adrodd ar amrywedd a'r manylion diweddaraf am ganlyniadau a ddaroganwyd;
- gofynion a ddiffiniwyd ac a ffurfiolwyd yn eglur ar gyfer cymeradwyo a rheoli gwariant, gyda'r penderfyniadau buddsoddi sy'n cynnwys gwariant cyfalaf neu refeniw yn rhwym i'w gwerthuso'n ffurfiol a manwl a'u hadolygu yn unol â lefelau cymeradwyo a bennir gan y Cyngor;
- Rheoliadau Cyllidol cynhwysfawr, yn nodi manylion am reolaethau a threfniadaethau cyllidol, wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol;
- corff Archwilio Mewnol proffesiynol â'i raglen flynyddol wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio Ariannol.

Y mae'r Pwyllgor Archwilio, ar ran y Cyngor, wedi adolygu effeithiolrwydd system reolaeth fewnol y Brifysgol. Fodd bynnag, ni all unrhyw system reolaeth ariannol fewnol roi ond sicrwydd rhesymol eithr nid diamod rhag camddatganiad neu golled berthnasol.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i Gyngor Prifysgol Cymru, Bangor

Rydym wedi archwilio'r adroddiadau cyllidol sy'n cynnwys y cyfrif incwm a gwariant cyfunol, y mantolenni, y gyfriflen llif arian gyfunol, y gyfriflen cyfanswm enillion a diffygion cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig a baratowyd yn ôl confensiwn cost hanesyddol (a newidiwyd gan adbrisio rhai asedion penodedig) a'r polisiau cyfrifyddu a bennir yn y datganiad o bolisiau cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau Priodol y Cyngor a'r Archwilwyr

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blyneddol. Fel y disgrifiwyd yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor, mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros baratoi'r adroddiadau cyllidol yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a roddwyd gan Gyngor Addysg Uwch Cymru, y Datganiad Arfer Cymeradwy ar Gyfrifyddu mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r adroddiadau cyllidol yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol a Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'r adroddiad hwn, yn cynnwys y farn, wedi cael ei baratoi ar gyfer, a dim ond ar gyfer, y Cyngor fel corff. Wrth roi'r farn hon nid ydym yn cymryd na derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw ddiben arall neu unrhyw berson arall y gall yr adroddiad hwn gael ei ddangos iddo/iddi, neu ddod i'w (d)dwyllo, ac eithrio lle cytunwyd yn benodol ymlaen llaw drwy ein caniatâd ysgrifenedig.

Rydym yn adrodd i chwi ein barn a yw'r adroddiadau cyllidol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Datganiad Arfer Cymeradwy ar Gyfrifyddu mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch. Rydym hefyd yn adrodd i chwi a yw'r incwm, ym mhob agwedd hanfodol, gan gyrrff cyllido, o grantiau ac incwm ar gyfer dibenion penodol ac o gronfeydd cyfyngedig eraill a weinyddir gan y Brifysgol, wedi ei ddefnyddio'n briodol yn unig i'r dibenion y derbyniwyd ef ar eu cyfer, ac a yw'r incwm wedi ei ddefnyddio yn unol â'r memorandwm cyllidol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Rydym hefyd yn adrodd i chwi, os, yn ein barn ni, nad yw adroddiad y Cyngor yn gyson â'r adroddiadau cyllidol, ac os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Rydym wedi darllen y wybodaeth arall yn yr adroddiadau cyllidol ac ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad ni os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau hanfodol â'r adroddiadau cyllidol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys adroddiad Y Trysorydd a'r datganiad ar lywodraeth gorfforaethol yn unig.

Sail ein Barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r Côt Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datguddion yn yr adroddiadau cyllidol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wneir gan y Cyngor wrth baratoi'r adroddiadau cyllidol, ac a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Brifysgol, ac a gyhmwysir hwy'n gyson a'u datguddio'n ddigonol.

Fe wnaethom gynllunio a chynnal ein harchwiliad fel y medrem gael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr ystyriem eu bod yn angenrheidiol er mwyn darparu inni dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod yr adroddiadau cyllidol yn rhydd o gamddatganiad hanfodol, boed hynny wedi ei achosi gan dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn fe wnaethom hefyd arfarnu digonoldeb cyffredinol cyflwyniad y wybodaeth yn yr adroddiadau cyllidol.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

Barn

Yn ein barn ni:

- (a) mae'r adroddiadau cyllidol yn rhoi darlun cywir a theg o amgylchiadau'r Brifysgol a'r grŵp ar 31 Gorffennaf 2003, ac o weddill incwm dros wariant, enillion a cholledion a llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hwnnw, ac y maent wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Datganiad Arfer Cymeradwy ar Gyfrifyddu mewn Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch.
- (b) ym mhob agwedd hanfodol, mae'r arian a wariwyd o grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chronfeydd eraill o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Brifysgol i ddibenion penodol, wedi cael eu defnyddio'n briodol i'r dibenion hynny ac, os yw'n briodol, wedi cael eu rheoli gan gydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol;
- (c) ym mhob agwedd hanfodol, mae'r incwm wedi ei ddefnyddio yn unol â'r memorandwm cyllidol gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

PricewaterhouseCoopers LLP

Cyfrifyddion Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig

Manceinion

5 Rhagfyr 2003

Cyfrif Incwm a Gwariant

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

	Nodyn	<u>Cyfunol</u> 2002/03 £000	<u>Cyfunol</u> 2001/02 £000
INCWM			
Grantiau'r Cyngor	1	32886	31364
Ffioedd Academaidd a Chontractau Addysg	2	18130	16358
Grantiau a Chontractau Ymchwil	3	10243	9777
Incwm Arall	4	18427	18958
Incwm Gwaddol a Buddsoddiadau	5	504	534
Cyfanswm Cyfunol a chyfran o'r Fenter ar y Cyd		80190	76991
Namyn cyfran Incwm y Fenter ar y Cyd		(2099)	(1739)
Cyfanswm Incwm		78091	75252
GWARIANT			
Costau Staff	7	45935	43387
Costau Ailstrwythuro Eithriadol	7	130	280
Treuliau Gweithredol Eraill	8	26851	27070
Dibrisiad	12	3589	3064
Llog Taladwy	9	1265	1349
Cyfanswm Gwariant	10	77770	75150
Gweddill Gweithredol ar ôl Dibrisiad Asedion ar Brisiad a chyn cyfran o Diffyg y Fenter ar y Cyd a Buddiannau Lleiafrifol		321	102
Cyfran o Diffyg y Fenter ar y Cyd		(371)	(17)
Buddiannau Lleiafrifol			(34)
(Diffyg)/Gweddill ar Weithrediadau Parhaus ar ôl Dibrisiad Asedion ar Brisiad	22	(50)	51
<u>ADRODDIAD AR WEDDILLION COSTAU HANESYDDOL</u>			
(Diffyg)/Gweddill ar Weithrediadau Parhaus ar ôl Dibrisiad Asedion ar Brisiad		(50)	51
Y gwahaniaeth rhwng Dibrisiad ar Sail Cost Hanesyddol a'r Codiad Dibrisiad Gwirioneddol am y Flwyddyn wedi'i gyfrifo ar y			
Swm Adbrisedig	21	676	676
Realeiddiad Enillion Adbrisiad Eiddo yn y Blynyddoedd Blaenorol	21	24	325
Gweddill Cost Hanesyddol am y Flwyddyn		650	1052

Mae incwm a gwariant cyfunol y Brifysgol a'i his-gwmniau yn ymwneud yn llwyr â gweithrediadau sy'n parhau.

Mantolen

ar 31 Gorffennaf 2003

	Nodyn	Cyfunol		Prifysgol	
		2003 £000	2002 £000	2003 £000	2002 £000
ASEDION SEFYDLOG					
Asedion Diriaethol	12	95792	94629	93055	91964
Buddsoddiadau	13				
- is-gwmnïau				4260	4260
- mentrau ar y cyd		(313)	58	112	50
- cyfran o'r asedion crynswth		3493	3300		
- cyfran o'r rhwymedigaethau crynswth		(3806)	(3242)		
- benthyciad i'r fenter ar y cyd		1810	1810	1810	1810
- arall		33	33	33	33
		97322	96530	99270	98117
BUDDSODDIADAU ASED GWADDOL	14	4091	4137	4091	4137
ASEDION CYFREDOL					
Stociau a Storfeydd mewn Llaw		226	232	181	178
Dyledwyr	15	9186	10519	9376	10748
Adneuron tymor byr	26	5530	5371	5530	5371
Arian yn y Banc ac mewn Llaw		1279	815	732	257
		16221	16937	15819	16554
CREDYDWYR: SYMIAU YN DDYLEDUS					
O FEWN UN FLWYDDYN	16	(15498)	(17240)	(15385)	(17237)
ASEDION/(RHWYMEDIGAETHAU)					
CYFREDOL NET		723	(303)	434	(683)
CYFANSWM ASEDION NAMYN					
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		102136	100364	103795	101571
CREDYDWYR: SYMIAU YN DDYLEDUS					
AR ÔL MWY NAG UN FLWYDDYN	17	(15103)	(15951)	(15798)	(16899)
DARPARIAETHAU AR GYFER					
RHWYMEDIGAETHAU A CHODIADAU	18	(32)	(156)	(32)	(156)
ASEDION NET		87001	84257	87965	84516

Mantolen

ar 31 Gorffennaf 2003

	Nodyn	<u>Cyfunol</u>		<u>Prifysgol</u>	
		2003 £000	2002 £000	2003 £000	2002 £000
GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG	19	15117	12277	15110	12264
GWADDOLION					
Penodol	20	3659	3702	3659	3702
Cyffredinol	20	432	435	432	435
		4091	4137	4091	4137
CRONFEYDD WRTH GEFN					
Cronfa Adbrisiad	21	36114	36766	36114	36766
Cyfrif Incwm a Gwariant	22	31679	31077	32650	31349
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN		67793	67843	68764	68115
CYFANSWM CRONFEYDD		87001	84257	87965	84516

Cymeradwywyd yr adroddiadau cyllidol ar dudalennau 10 i 44 gan y Cyngor ar 5 Rhagfyr 2003 ac fe'u harwyddwyd ar ei ran gan:

H R EVANS, Is-Ganghellor

H ELWYN JONES, Trysorydd

D W HUGHES, Cyfarwyddwr Cyllid

Prifysgol Cymru, Bangor

Adroddiad Llif-Arian Cyfunol

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

	Nodyn	2002/03 £000	2001/02 £000
MEWNLIF ARIAN NET O'R GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL	24	2757	4616
Adenillion ar Fuddsoddiadau a Chynnal Cyllid	27	(768)	(831)
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol	28	(380)	194
Mewn-lif Arian cyn Rheolaeth Adnoddau Rhydd a Chyllido		1609	3979
Rheolaeth Adnoddau Rhydd	26	(159)	(3522)
Cyllido	25	(778)	(894)
CYNNYDD/(GOSTYNGIAD) MEWN ARIAN YN Y FLWYDDYN		672	(437)
CYSONI LLIF-ARIAN NET Â'R SYMUD YN Y DYLEDION NET			
CYNNYDD/(GOSTYNGIAD) MEWN ARIAN YN Y FLWYDDYN		672	(437)
Cynnydd mewn Adneuon Tymor-byr	26	159	3522
Benthyciadau Newydd	25	(156)	
Ad-daliadau Cyfalaf	25	934	894
Newid yn y Ddyled Net yn y Flwyddyn		1609	3979
Dyled Net ar 1 Awst	26	(10951)	(14930)
DYLED NET AR 31 GORFFENNAF	26	(9342)	(10951)

Adroddiad o Gyfanswm Enillion a Diffygion Cydnabyddedig

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

		<u>Cyfunol</u>	<u>Cyfunol</u>
	Nodyn	2002/03 £000	2001/02 £000
(Diffyg)/Gweddill ar ôl Dibrisiad Asedion ar Brisiad gan gynnwys cyfran o Weddill y Fenter ar y Cyd		(50)	85
Dibrisiad Buddsoddiadau Asedion Gwaddol	20	(39)	(873)
Incwm Gwaddol a Godwyd am y Flwyddyn	20	(7)	(16)
Gwaddolion Newydd	20		5
		<hr/>	<hr/>
CYFANSWM COLLEDION CYDNABYDDEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN		(96)	(799)
Cysoni			
Cronfeydd wrth Gefn a Gwaddolion		71980	72779
Cyfanswm y Colledion Cydnabyddedig yn gysylltiedig â'r Flwyddyn		(96)	(799)
		<hr/>	<hr/>
Cronfeydd wrth Gefn a Gwaddolion wrth Gloi		71884	71980

Polisiau Cadw Cyfrifon

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

1. **Sail Paratoi**

Paratowyd yr adroddiadau cyllidol hyn yn unol â'r Datganiad Ymarfer Cymeradwy (SORP): *Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch* ac yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu cymwys. Maent yn cydymffurfio â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

2. **Sail Cyfrifyddu**

Paratowyd yr adroddiadau cyllidol yn ôl y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd trwy adbriso buddsoddiadau asedion gwaddol ac adbriso tir ac adeiladau (gweler paragraff 8).

3. **Sail Cyfuno**

Y mae'r adroddiadau cyllidol cyfunol yn cynnwys cyfriflenni cyllidol y Brifysgol a phob is-gwmni am y flwyddyn ariannol hyd 31 Gorffennaf 2003. Dilëir yn llwyr werthiannau ac elw rhyng-grŵp wrth eu cyfuno. Ar 31 Gorffennaf 2003, diddymwyd yr Institute for Financial Management yn wirfoddol gan ei aelodau a throsglwyddwyd y busnes, ei asedion a'i ddyledion pan gafodd ei ddiddymu i gwmni a oedd newydd ei ffurfio, sef Business & Management Education Limited. Cyfalaf cyfranddaliadau, yn hytrach na bod yn gyfyngedig drwy warantiad, sydd gan y cwmni atebolrwydd cyfyngedig a ffurfiwyd yn ddiweddar. Mae'r daliadau yn yr Institute for Financial Management, Business & Management Education Limited a VT Ocean Sciences Limited yn un o berchenogaeth a rheolaeth gyfartal, ac o'r herwydd fe'i cyfririr ar sail soddgyfran grynsyth yn unol â FRS 9: Cyfranogion a Mentrau ar y Cyd. Yn unol â FRS 2: Cyfrifyddu ar gyfer Is-gwmnïau, nid yw gweithgareddau Undeb Myfyrwyr y Brifysgol a'r Ymddiriedolaeth Ddatblygu wedi eu cyfuno gan nad yw'r Brifysgol yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Mae'r manylion am fusnes is-gwmnïau a menter ar y cyd y Brifysgol fel a ganlyn:

	%	Dyddiad Cyfranddaliad Cyfalaf	Gwlad y Cofrestrriad	Natur y Busnes
Industrial Development Bangor (UWB) Limited	100%	140,000 Cyfranddaliadau Cyffredin £1	Cymru	Offerwaith Electronig

Cafodd y Brifysgol y daliad am gost o £80,000, ac mae'r Cwmni hefyd wedi gwneud dyroddiad cyfalaf o £60,000.

Duostore Limited	100%	7,906,644 Cyfranddaliadau Cyffredin 50c	Cymru	Datblygiad eiddo y Brifysgol
------------------	------	---	-------	------------------------------------

Daliad a gafwyd gan y Brifysgol ar gost o £4,180,320.

Institute for Financial Management	50%	Cyfyngedig â gwarantiad	Cymru	Cyrsiau dysgu o bellter
---------------------------------------	-----	----------------------------	-------	----------------------------

Daliad ar sail Menter ar y Cyd â'r Manchester Business School

Bangor Centre for Developmental Disabilities Limited	100%	2 Cyfranddaliadau Cyffredin £1	Cymru	Gwasanaetha u gofal awtistiaeth
UWB Enterprises Limited	100%	2 Cyfranddaliadau Cyffredin £1	Cymru	Masnachol cyffredinol

Polisiau Cadw Cyfrifon

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

VT Ocean Sciences Limited	50%	50,000 Cyfranddaliadau Cyffredin £1	Lloegr	Llogi llong ymchwil
---------------------------	-----	---	--------	------------------------

Daliad ar sail Menter ar y Cyd â Vosper Thorneycroft (UK) Limited.

	%	Dyddiad Cyfranddaliad Cyfalaf	Gwlad y Cofrestriad	Natur y Busnes
Business & Management Education Limited	50%	50 Cyfranddaliadau Dosbarth A £1	Cymru	Cyrsiau dysgu o bellter

Daliad ar sail Menter ar y Cyd â'r Manchester Business School

4. **Cydnabod incwm**

Cynhwysir incwm o grantiau ymchwil a chontractau a gwasanaethau eraill a wnaethpwyd yng ngraddfa cwblhau'r contract neu'r gwasanaeth dan sylw. Mae hyn fel rheol yn cyfateb i swm y gwariant perthnasol a gafwyd yn ystod y flwyddyn ynghyd ag unrhyw gyfraniadau perthynol tuag at argostau.

Credydur yr holl incwm o adneuron tymor-byr a gwaddolion a rhoddion cyffredinol i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod yr enillir ef.

Cynhwysir incwm o waddolion a rhoddion penodol i raddfa gwariant perthnasol a gafwyd yn ystod y flwyddyn.

Cydnabyddir grantiau rheolaidd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Cyngor Cenedlaethol yn y cyfnod y derbynnir hwy.

Ymdrinnir â grantiau heb fod yn rheolaidd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu gyrff eraill a dderbyniwyd mewn perthynas â chaffael neu adeiladu asedion sefydlog fel grantiau cyfalaf gohiriedig ac fe'u hamorteiddir yn unol â dibrisiad dros oes yr asedion.

5. **Cynnal-a-chadw Tir ac Adeiladau**

Daw costau cynnal-a-chadw hir-dymor a gwaith adferol cynnal rheolaidd o'r cyfrif incwm a gwariant fel maent yn codi.

6. **Costau Pensiwn**

Y ddau brif gynllun pensiwn ar gyfer staff y Brifysgol yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion a Chynllun Pensiwn ac Yswiriant y Coleg 1978. Mae nifer fechan o staff yn parhau mewn cynlluniau pensiwn eraill.

a. Cynllun Pensiwn y Prifysgolion

Mae'r sefydliad yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion, sef cynllun budd-dâl diffiniedig sy'n cael ei ariannu o'r tu allan a heb fod yn rhan o'r Ail Bensiwn Gwladol. Caiff y gronfa ei phrisio bob tair blynedd gan actiwari annibynnol gyda chymwysterau proffesiynol gan ddefnyddio'r dull uned amcanol, a phennir cyfraddau'r cyfraniadau taladwy gan yr ymddiriedolwr ar gyngor yr actiwari. Yn y blynyddoedd eraill, mae'r actiwari yn adolygu cynnydd y cynllun. Asesir costau pensiwn yn unol â chyngor yr actiwari, wedi eu seilio ar brisiad actiwaraid diweddaraf y cynllun, ac fe'u cyfrifir ar sail cost darparu pensiynau dros y cyfnod y mae'r sefydliad yn elwa oddi wrth wasanaethau'r gweithwyr.

b. Cynllun Pensiwn ac Yswiriant y Coleg 1978

Mae'r Brifysgol yn gweithredu Cynllun Pensiwn ac Yswiriant y Coleg 1978, sef cynllun budd-dâl

Polisiau Cadw Cyfrifon

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

diffiniedig sy'n cael ei ariannu o'r tu allan a heb fod yn rhan o'r Ail Bensiwn Gwladol. Codir y cyfraniadau i'r cynllun o'r cyfrif incwm a gwariant er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith y gweithwyr yn y Brifysgol yn y fath fodd fel bo cost y pensiwn yn ganran sylweddol wastad o'r gyflogres bensiynadwy bresennol a dyfodol. Lledaenir amrywiadau o gostau rheolaidd dros y cyfnod gwaith y disgwylir iddo ar gyfartaledd fod yn weddill i aelodau'r Cynllun ar ôl ystyried yn briodol y tynnir arian allan yn y dyfodol. Pennir y cyfraniadau gan actiwariad cymwys ar sail prisiadau bob tair blynedd gan ddefnyddio'r dull uned amcanol. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu darpariaethau trosiannol FRS17:Buddion Ymddeoliad.

7. **Arian Tramor**

Cofnodir trafodion a wneir mewn arian tramor ar y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion. Trosir asedion ariannol a rhwymedigaethau mewn arian tramor i sterling naill ai ar gyfraddau diwedd y flwyddyn neu, pan fo contractau cyfnewid tramor ymlaen perthynol, ar gyfraddau contract. Ymdrinnir â'r gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi o hyn wrth bennu incwm a gwariant am y flwyddyn ariannol.

8. **Asedion Sefydlog Dirweddol**

a. Tir ac Adeiladau

Mae'r Brifysgol yn flaenorol wedi defnyddio darpariaethau FRS 15: Asedion Sefydlog Dirweddol i ganiatáu iddi gadw Tir ac Adeiladau ar eu symiau yn y cyfrifon ar 1 Awst 1999, yn amodol ar ddarpariaethau dibrisiant cyfredol. Cyn y dyddiad hwn roedd Tir ac Adeiladau wedi cael eu nodi yn y fantolen yn ôl eu prisiad, ac eithrio ychwanegiadau rhwng prisiadau, a oedd wedi cael eu nodi yn ôl cost.

Adroddir ar y tir a'r adeiladau a gynhwyswyd ar brisiad ar y seiliau canlynol:

- Datgenir tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yr oedd y Brifysgol yn berchen arnynt cyn 1 Ionawr 1994 ac y medrir eu prisio ar y farchnad agored ar Brisiad Marchnad Agored ar Ionawr 1994.
- Datgenir tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yr oedd y Brifysgol yn berchen arnynt cyn 1 Ionawr 1994 ond na fedrir eu prisio ar y farchnad agored ar Gost cael eiddo newydd wedi ei ddibrisio ar Ionawr 1994.
- Datgenir tir ac adeiladau a gafwyd wrth uno â'r Coleg Normal ar Gost cael eiddo newydd wedi ei ddibrisio ar Fehefin 1993.

Dibrisir adeiladau dros eu hoes ddefnyddiol a amcangyfrifir yn 50 mlynedd. Ni ddibrisir tir oherwydd ystyrir fod iddo oes ddefnyddiol amhenodol.

Lle ceir adeiladau â chymorth grantiau penodol fe'u cyfalefir a'u dibrisio fel uchod. Credydir y grantiau perthynol i gyfrif grant cyfalaf gohiriedig a'u rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased perthynol ar sail sy'n gyson â'r polisi dibrisio.

Ni chyfalefir costau ariannol y gellir yn uniongyrchol eu priodoli i godi adeiladau fel rhan o gost yr asedion hynny.

Cynhelir arolwg o amhariad ar asedion sefydlog os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn awgrymu na ellir o bosib adfer swm cynnal yr asedion sefydlog.

Cyfrifir adeiladau sydd wrthi'n cael eu codi ar gost, a seilir ar dystysgrifau'r pensaer a chostau uniongyrchol eraill a gafwyd hyd 31 Gorffennaf. Dibrisir y costau o'r flwyddyn y cafwyd hwy.

b. Cyfarpar

Y mae cyfarpar, gan gynnwys gyfrifiaduron a meddalwedd sy'n costio llai na £10,000 yr eitem unigol neu gr?p o eitemau cysylltiedig, yn cael eu dileu ym flwyddyn eu caffael. Cyfalefir yr holl gyfarpar

Polisiau Cadw Cyfrifon

Y Flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2003

arall ar gost. Cofnodir cyfarpar a gyfalefir ar gost ac fe'i dibrisir dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig a amcangyfrifir yn 5 mlynedd, neu gyfnod y grant mewn perthynas ag ymchwil benodol neu brojectau eraill.

Pan geir cyfarpar drwy gyfrwng grantiau penodol fe'i cyfalefir a'i ddibrisio yn unol â'r polisi uchod. Ymdrinnir â'r grant cysylltiedig fel grant a dderbyniwyd ymlaen llaw ac fe'i rhyddheir i incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y cyfarpar.

9. **Asedion a Brydlesir**

Mae costau'n ymwneud â gweithredu prydlesau'n cael eu codi ar sail llinol dros gyfnod y brydles.

10. **Buddsoddiadau**

Mae buddsoddiadau asedion sefydlog nad ydynt wedi eu rhestru ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig yn cael eu cario ar gost hanesyddol namyn unrhyw ddarpariaeth am unrhyw amhariad yn eu gwerth.

Cynhwysir buddsoddiadau sy'n ffurfio rhan o asedion gwaddol yn y fantolen ar werth y farchnad.

Cynhwysir buddsoddiadau asedion cyfredol yn y fantolen ar raddfa is eu cost wreiddiol a gwerth sylweddoladwy net.

11. **Stociau**

